Deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rydym ni sydd â'n henwau isod yn galw ar y Cynulliad i roi hawl i fyfyrwyr uwch-radd sydd â'u cartref yng Nghymru dderbyn y Grant Dysgu (ALG) y mae'r Cynulliad yn bwriadu ei gyflwyno.

Rydym yn nodi cynigion y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 12 Chwefror 2002, i gyflwyno Grantiau Dysgu gan y Cynulliad, "a fydd yn darparu ffynhonnell sicr o gymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr mewn addysg uwch ac, am y tro cyntaf, i fyfyrwyr mewn addysg bellach hefyd" (datganiad i sesiwn lawn y Cynulliad ar 12/2/02). Yn dilyn argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Galedi a Chyllid Myfyrwyr (Adroddiad Rees), daw'r cyllid ar gyfer y cynllun newydd, i raddau helaeth, o arian a ddynodir ar hyn o bryd i Gronfeydd Mynediad a Chaledi. Ni fwriedir caniatáu i fyfyrwyr uwch-radd fanteisio ar y cynllun.

Rydym ni o'r farn fod eithrio myfyrwyr uwch-radd o'r ALG yn wahaniaethol ac yn groes i ysbryd y cynllun. Angen, yn hytrach na lefel y cwrs a ddilynir, ddylai bennu'r hawl i gael cymorth ariannol.

Rydym hefyd yn credu bod cynllun y Gronfa At Raid (FCF) sydd yn yr arfaeth yn annhebygol o ddarparu digon o gyllid ar gyfer anghenion myfyrwyr uwch-radd sydd â'u cartref yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae ar fyfyrwyr uwch-radd angen cryn dipyn o arian o'r Gronfa Galedi, yn arbennig ar gyfer costau gofal plant, ac mae swm (tipyn is) y Gronfa At Raid y bwriedir ei sefydlu yn ei lle yn annhebygol o fod yn ddigonol.

Llofnod	**Enw**	**Cyfeiriad**